Joint Council for Qualifications

**Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, Cambridge OCR, CCEA, Pearson a CBAC**

**Hysbysiad i Ganolfannau - rhyddhau canlyniadau**
**Arholiadau Mehefin 2026**

**(At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr a swyddogion arholiadau)**

# Rhyddhau canlyniadau'n gyfyngedig i ganolfannau'n unig

Bydd ffeiliau canlyniadau electronig a dogfennaeth ategol ar gael i'r canolfannau drwy safleoedd diogel y cyrff dyfarnu neu A2C, fel a ganlyn:

| Dyddiad | Cymwysterau |
|---|---|
| 00:01 ddydd Mercher 12 Awst 2026 | TAG UG a Safon Uwch, FSMQ<br>Project Estynedig<br>Cymwysterau Lefel 3 Cymhwysol<br>Cymwysterau Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol* |
| | |
| 00:01 ddydd Mercher 19 Awst 2026 | TGAU, Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)<br>Projectau Sylfaen ac Uwch<br>Cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol a Thechnegol* |

***Gweler Dyddiadau allweddol ac amserlenni () am fanylion rhyddhau canlyniadau cymwysterau Technegol Caergrawnt**.

***Gweler gwefan Pearson am fanylion rhyddhau canlyniadau'r cymwysterau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol.**

Mae ffiniau graddau, ffeiliau canlyniadau a'u cynnwys yn gyfrinachol i bennaeth y ganolfan, staff y swyddfa arholiadau ac uwch aelodau'r staff addysgu yn y ganolfan, y consortiwm neu Ymddiriedolaeth Aml-Academi. Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw penderfynu pwy all gael mynediad i'r canlyniadau ac i benderfynu pwy sy'n berthnasol i'r disgrifiad 'uwch aelodau staff addysgu'.

**Ni ddylid** datgelu na thrafod ffiniau graddau a chanlyniadau, na'r wybodaeth sy'n deillio o ganlyniadau a ffiniau graddau gyda'r canlynol:

- athrawon eraill;
- ymgeiswyr na rhieni;
- sefydliadau addysgol ac Awdurdodau Lleol;
- y cyfryngau;
- unrhyw unigolion eraill.

Yn ogystal, **ni ddylid** datgelu na thrafod ffiniau graddau, canlyniadau, na'r wybodaeth sy'n deillio o ganlyniadau a ffiniau graddau ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu X (Twitter gynt).

Os nad yw canolfan yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, yna mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i beidio â chyhoeddi canlyniadau dan waharddiad mewn cyfresi yn y dyfodol.

Atgoffir canolfannau ei bod hi'n ofynnol iddynt fod â chynllun wrth gefn arholiadau ar waith. **Rhaid** i'r cynllun hwn gynnwys gweithdrefnau os na fydd y ganolfan ar gael ar ddiwrnod y canlyniadau oherwydd argyfwng annisgwyl. **Rhaid** i'r cynllun ystyried effaith bosibl ymosodiad seiber hefyd.

## Cyhoeddi canlyniadau (rhyddhau canlyniadau i ymgeiswyr)

Gellir rhyddhau canlyniadau i ymgeiswyr fel a ganlyn:

| **Dyddiad** | **Cymwysterau** |
|---|---|
| 08:00 ddydd Iau 13 Awst 2026 | TAG UG a Safon Uwch, FSMQ<br>Project Estynedig<br>Cymwysterau Lefel 3 Cymhwysol<br>Cymwysterau Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol* |
| | |
| 08:00 ddydd Iau 20 Awst 2026 | TGAU, Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)<br>Projectau Sylfaen ac Uwch<br>Cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol a Thechnegol* |

***Gweler Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni am fanylion rhyddhau canlyniadau cymwysterau Technegol Caergrawnt**.

***Gweler gwefan Pearson am fanylion rhyddhau canlyniadau'r cymwysterau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol.**

**Ni ddylid** rhyddhau'r ffiniau graddau a'r canlyniadau tan ar ôl 08:00 ar y dyddiad priodol ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau.**Ni ddylai ymgeiswyr dderbyn canlyniadau trwy e-bost, trwy'r post neu fel arall, cyn 08:00.**

**Bydd corff dyfarnu yn ystyried unrhyw achos o dorri'r gofynion hyn yn gamymddwyn.**

Dylai canolfannau atgoffa ymgeiswyr bod unrhyw ganlyniadau'n cael eu rhyddhau dros dro yn unig. Gallai'r corff dyfarnu eu newid, er enghraifft yn rhan o'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau cyhoeddedig, cyn dosbarthu unrhyw dystysgrifau.

## Cyfyngiadau ychwanegol ar ryddhau canlyniadau

**Ni ddylid** rhannu data canlyniadau a ffiniau graddau'n ehangach tan y bydd yr ymgeiswyr wedi derbyn eu canlyniadau.

Ar ôl i ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau, **ni ddylai** canolfannau ryddhau data canlyniadau, gan gynnwys gwybodaeth am ffiniau graddau, i awdurdodau lleol, na'u rhannu'n ehangach na hynny, tan ar ôl 09:30 ar y dyddiad priodol ar gyfer cyhoeddi canlyniadau.

Yn yr un modd, ni ddylai canolfannau ryddhau datganiadau i'r wasg na siarad â'r wasg o gwbl tan ar ôl 09.30 ar y dyddiad priodol ar gyfer cyhoeddi canlyniadau.

**Bydd corff dyfarnu yn ystyried unrhyw achos o dorri'r gofynion hyn yn gamymddwyn.**

## Defnyddio ffeiliau canlyniadau electronig

Nid yw cyrff dyfarnu yn darparu copïau papur o ganlyniadau rhagarweiniol ymgeiswyr. Bydd angen i'r canolfannau ddefnyddio'r data electronig i baratoi'r wybodaeth fydd yn cael ei rhyddhau i'r ymgeiswyr.

Os bydd angen i ymgeiswyr ddarparu eu canlyniadau rhagarweiniol i drydydd parti, fel colegau Chweched Dosbarth neu AB, rydym yn argymell yn gryf y dylid argraffu datganiadau o ganlyniadau rhagarweiniol yr ymgeiswyr ar bapur pennawd yr ysgol a/neu wedi'u stampio ag enw a logo'r ysgol.

Rhaid cynnwys Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI) yr ymgeisydd ar ei ddatganiad canlyniadau rhagarweiniol, gan y bydd hyn yn cefnogi cofrestru ar gyfer arholiadau yn y dyfodol mewn colegau Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach.

## Colegau Chweched Dosbarth ac AB

Bydd colegau chweched dosbarth ac AB yn derbyn canlyniadau ymgeiswyr wedi'u cymeradwyo gan ganolfannau at ddibenion cofrestru, e.e. canlyniadau wedi'u hargraffu ar bapur pennawd yr ysgol a/neu wedi'u stampio ag enw a logo'r ysgol.

Nid oes gwahaniaeth rhwng y data canlyniadau rhagarweiniol sy'n cael eu cynhyrchu o safle allrwyd corff dyfarnu a'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu trwy becyn MIS y ganolfan (a fydd yn y rhan fwyaf o achosion yn rhestru canlyniadau pob corff dyfarnu). Rhaid cofio y gallai canlyniadau rhagarweiniol newid.

Os oes amheuaeth, dylai colegau Chweched Dosbarth ac AB gysylltu ag ysgolion i gael gwybod am ganlyniadau'r ymgeisydd neu gallant ofyn i'r ymgeisydd am y tystysgrifau, unwaith y byddan nhw wedi'u dosbarthu. Y dystysgrif yw'r cofnod terfynol o gyflawniad yr ymgeisydd.

JCQ ©2026